

Cynllun Gweithredu ar gyfer Lles Staff a Dysgwyr – Gwybodaeth Ategol

Medi 2026



Cyflwyniad

Gwybodaeth bwysig

Pan fydd Medr yn defnyddio'r term '**rhaid**', bydd hynny'n dynodi gofyniad cyfreithiol neu ofyniad rheoliadol penodol. Rhaid i ddarparwyr gydymffurfio â'r gofynion hyn.

Pan fydd Medr yn defnyddio'r term '**dylai**', bydd hynny'n cyfeirio at gamau gweithredu neu arferion a anogir yn gryf ond nad ydynt yn ofynnol yn ôl y gyfraith yn yr Amodau Cofrestru neu Gyllido. Fodd bynnag, mae Medr yn disgwyl i gyrff llywodraethu (neu awdurdodau cyfatebol) roi sylw i ganllawiau o'r fath. Bydd Medr yn ystyried i ba raddau y mae darparwr wedi rhoi sylw dyladwy i ddarpariaethau '**dylai**' wrth asesu risg darparwr.

1. Yn unol â [Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil \(Cymru\) 2022](#) a gofynion [fframwaith rheoleiddio](#) Medr, rhaid i ddarparwr sydd wedi'i gofrestru â Medr neu a gaiff ei gyllido ganddo fod wedi rhoi trefniadau effeithiol ar waith i gefnogi a hybu lles dysgwyr a staff.
2. Mae'r trefniadau hyn yn amod cofrestru cychwynnol a pharhaus ac yn amod cyllido, gan adlewyrchu'r gofynion a nodir yn Adrannau 27, 31 a 108 o'r Ddeddf.
3. Rhaid i ddarparwyr hefyd gydymffurfio â dyletswyddau a fframweithiau statudol perthnasol eraill.
4. Er mwyn cydymffurfio â'r amod hwn, rhaid i ddarparwyr wneud y canlynol:
 - i. rhoi sylw i'r gofynion a nodir yn y [manylion atodol ar y gofynion ar gyfer cyllid a rheoleiddio lles staff a dysgwyr \(Saesneg yn unig\)](#) (neu unrhyw ddiwygiadau dilynol);
 - ii. cyd-fynd â dyletswyddau cyfreithiol a statudol perthnasol, gan nad yw'r amod hwn yn disodli nac yn diddymu dyletswyddau cyfreithiol na rhwymedigaethau statudol presennol darparwyr;
 - iii. rhoi sylw i wybodaeth, canllawiau a chynghor perthnasol a gyhoeddir gan Medr.
5. Yn ystod 2026/27, rhaid i ddarparwyr roi sylw i'r gofynion canlynol a nodir yn y manylion atodol ar gyllid a rheoleiddio lles staff a dysgwyr, sy'n cynnwys:
 - i. yn 2026, cynnal hunanwerthusiad lles staff a dysgwyr (gofyniad blynyddol parhaus);
 - ii. erbyn 30 Tachwedd 2026, cyflwyno cynllun gweithredu dwy flynedd ar gyfer lles (i gwmpasu 2026/27 a 2027/28);
 - iii. yn ystod 2027, cynnal hunanwerthusiad lles (gofyniad blynyddol parhaus);
 - iv. erbyn mis Rhagfyr 2027, cyflwyno'r ffurflen sicrwydd a chydymffurfiaeth flynyddol gyntaf (gofyniad blynyddol parhaus), y disgwylir iddi gynnwys:
 - a. diweddariadau a newidiadau i gynllun gweithredu'r darparwr;
 - b. diweddariadau a newidiadau i risgiau a materion a amlinellir gan y darparwr;
 - c. diweddariadau a newidiadau i bolisiâu a gweithdrefnau'r darparwr.

Gwybodaeth bwysig

Mae'n ofynnol i bob darparwr dysgu seiliedig ar waith gyflwyno cynllun gweithredu ar gyfer lles erbyn 1 Awst 2027. Rhaid i ddarparwyr geisio eu sicrwydd eu hunain bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer cefnogi a hybu lles staff a dysgwyr drwy unrhyw drefniadau ag is-gontractwyr neu gonsortia.

Lle y bo'n ofynnol i is-gontractwr neu bartner mewn consortiwm gyflwyno ei gynllun gweithredu ei hun ar gyfer lles staff a dysgwyr, dylai hwn ystyried hyn. Gall darparwyr addysg bellach sy'n cynnal gweithgareddau dysgu seiliedig ar waith ddewis naill ai ymgorffori eu darpariaeth dysgu seiliedig ar waith yn y cynllun gweithredu ar gyfer lles a gyflwynir ym mis Tachwedd 2026, neu wneud diweddariad i'w cynllun gweithredu ar gyfer lles drwy'r broses sicrwydd flynyddol, y disgwylir iddi ddigwydd ym mis Rhagfyr 2027.

6. Dylai'r wybodaeth ategol hon gael ei defnyddio ar y cyd â fframwaith rheoleiddio Medr, ac unrhyw ddogfennau rheoleiddio ategol cysylltiedig.
7. Mae Medr yn disgwyl i ddarparwyr ymgysylltu â ni cyn gynted â phosibl pan fydd risg i gydymffurfiaeth, buddiannau dysgwyr neu hyder y cyhoedd yn codi. Mae ein ffordd o weithredu yn seiliedig ar egwyddor "dim byd annisgwyl": po gynharaf y caiff mater ei godi, mwyaf o gyfle fydd i'w ddatrys ar y cyd mewn ffordd gymesur. Wrth gwrs, mae'n bosibl y bydd eithriadau i hyn, lle na fydd yn rhesymol disgwyl i ddigwyddiadau neu newidiadau gael eu rhagweld.
8. Darparwyr sy'n gyfrifol am benderfynu a yw digwyddiad neu fater yn gyfystyr â Digwyddiad Adroddadwy ac y dylid rhoi gwybod i Medr amdano. Mae Digwyddiadau Adroddadwy yn cynnwys digwyddiadau difrifol a digwyddiadau hysbysadwy, a dylid rhoi gwybod amdanynt yn brydlon lle y gallant effeithio ar gydymffurfiaeth darparwr ag amodau cofrestru neu gyllido parhaus.
9. Wrth wneud y penderfyniad hwn, dylai darparwyr ystyried natur, difrifoldeb ac effaith bosibl y digwyddiad ar ddysgwyr, llywodraethiant, cydymffurfiaeth reoliadol, neu allu'r darparwr i gyflawni ei rwymedigaethau. Lle bo ansicrwydd, dylai darparwyr arfer gofal a cheisio cyngor, gan gydnabod bod Digwyddiadau Adroddadwy yn rhan o waith parhaus Medr i fonitro ac asesu cydymffurfiaeth.

Ymgysylltu â dysgwyr a chyrrff cynrychioli dysgwyr


10. Yn unol â'r [Cod Ymgysylltu â Dysgwyr](#), rhaid i ddarparwyr ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch polisïau a chymau gweithredu sy'n ymwneud â lles dysgwyr.
11. Rhaid i ddarparwyr hefyd weithio gyda chyrrff cynrychioli dysgwyr (lle y bônt yn bodoli) wrth fodloni gofynion yr amod hwn i'r graddau y mae'n ymwneud â lles dysgwyr.

Cynnwys staff ac undebau llafur a gweithio gyda nhw

12. Mae dyletswydd statudol ar Medr i hyrwyddo cydweithio. Felly, dylai darparwyr addysg drydyddol gynnwys staff mewn trafodaethau am amod rheoleiddio Lles

Staff a Dysgwyr Medr, a gweithio gydag undebau llafur (lle bo hynny'n briodol) wrth fodloni gofynion yr amod i'r graddau y mae'n ymwneud â lles staff.

Cylch Lles Staff a Dysgwyr



Hunanwerthusiad lles

13. Yn ystod 2026, dylai darparwyr ddefnyddio adnoddau a chanllawiau hunanasesu sydd eisoes yn bodoli er mwyn eu helpu i gynnal eu hunanwerthusiad. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:
- i. **Enghreifftiau yn y sector addysg uwch:**
 - a. [Fframwaith Stepchange](#) ac [adnodd hunanasesu Universities UK \(UUK\)](#);
 - b. [Adnodd asesu fframwaith Suicide Safer UUK](#).
 - ii. **Enghreifftiau eraill nad ydynt ar gyfer sectorau penodol:**
 - c. [Offeryn hunanasesu a gweithredu NYTH](#) Llywodraeth Cymru;
 - d. [Pecyn Cymorth ar gyfer Sefydliadau sy'n Wybodys ynghylch Trawma ac ACE \(TrACE\)](#);
 - e. [Matrics Aeddfedrwydd Sefydliad Gwrth-hiliol](#).
14. Yn 2027, dylai darparwyr ddefnyddio'r adnoddau a chanllawiau hunanasesu canlynol:
- i. **Enghreifftiau yn y sector addysg uwch:**
 - a. [Hunanasesiad Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol](#).
 - ii. **Enghreifftiau eraill nad ydynt ar gyfer sectorau penodol:**
 - b. Yr [egwyddorion hunanwerthuso](#) sydd wedi cael eu datblygu gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) ac Estyn;
 - c. [Fframwaith Cyffredin ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant](#) Medr.

Cynllun gweithredu ar gyfer lles

15. Rhaid i'r cynllun gweithredu dwy flynedd (2026/27 a 2027/28) ar gyfer lles staff a dysgwyr gael ei lywio gan hunanwerthusiad lles y darparwr. Dylai darparwyr ddefnyddio canfyddiadau'r hunanwerthusiad i nodi cryfderau, risgiau, materion a blaenoriaethau ar gyfer datblygu parhaus. Dylai'r cynllun gweithredu ar gyfer lles ddangos sut yr eir i'r afael â risgiau, materion a blaenoriaethau a nodir drwy raglen gymesur o weithgarwch yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd.
16. Bwriedir i'r wybodaeth ategol isod helpu darparwyr addysg drydyddol i gwblhau'r templed cynllun gweithredu ar gyfer lles.

Adran un: Manylion y darparwr

17. Yn yr adran hon, dylai darparwyr roi enw, rôl a manylion cyswllt yr unigolyn y dylai Medr gysylltu ag ef mewn perthynas â'r cynllun gweithredu.

Adran dau: Sicrwydd

18. Yn 2026, rhaid i bob darparwr gwblhau'r datganiad sicrwydd cychwynnol ynghylch lles staff a dysgwyr, gan roi ateb cadarnhaol neu negyddol i'r wyth cwestiwn cydymffurfiaeth a nodir yn y templed cynllun gweithredu ar gyfer lles staff a dysgwyr, a rhoi gwybodaeth ychwanegol lle y gofynnir am hynny.

19. Rhaid i'r datganiad sicrwydd cychwynnol gael ei lofnodi gan y Swyddog Atebol a Chadeirydd y Corff Llywodraethu (neu awdurdod cyfatebol).

Adrannau tri a chwech: Polisiâu a gweithdrefnau staff a dysgwyr

Rhan A: Polisiâu a gweithdrefnau staff a dysgwyr (cyfredol)

20. Rhaid i ddarparwyr restru'r holl bolisiâu a gweithdrefnau staff a dysgwyr a oedd yn rhan o'r hunanwerthusiad darparwr ac sydd wedi cael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y corff llywodraethu, y bwrdd, yr uwch-dîm arwain, neu'r awdurdod cyfatebol.
21. Dylai polisiâu lles staff a dysgwyr ddangos sut mae'r darparwr yn hybu ac yn cefnogi lles staff a dysgwyr, fel y'u diffinnir yn yr amod Lles Staff a Dysgwyr.
22. Mae trefniadau lles staff a dysgwyr yn cynnwys polisiâu a gweithdrefnau sy'n hybu ac yn cefnogi llesiant a diogelwch staff a dysgwyr.
23. Diffinnir llesiant fel llesiant emosiynol ac iechyd meddwl, a diffinnir diogelwch fel rhyddid rhag niwed gan gynnwys aflonyddu, camymddwyn (i'r graddau y mae'n ymwneud â lles staff a dysgwyr), trais, trais rhywiol, aflonyddu rhywiol, a throseddau casineb. Ceir rhagor o wybodaeth yn **Atodiad A** y ddogfen hon.

Rhan B: Polisiâu a gweithdrefnau staff a dysgwyr (i gael eu datblygu neu eu hadolygu)

24. Rhaid i ddarparwyr restru'r holl bolisiâu a gweithdrefnau lles staff neu ddysgwyr y bwriedir eu datblygu, eu diweddarau, neu eu hadolygu'n ffurfiol yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd. Dylai hyn adlewyrchu blaenoriaethau a nodwyd yn sgil y broses hunanwerthuso, ymgysylltu â staff a dysgwyr, newidiadau rheoliadol, datblygiadau yn y sector, neu strategaeth y sefydliad.
25. Ar gyfer pob polisi neu weithdrefn, rhowch:
- i. enw'r polisi a/neu'r weithdrefn;
 - ii. dyddiad dechrau datblygu neu adolygu;
 - iii. dyddiad gorffen datblygu neu adolygu;
 - iv. yr adran sy'n gyfrifol am yr adolygiad.
26. Wrth gynllunio adolygiadau o bolisiâu staff a dysgwyr, rhaid i ddarparwyr wneud y canlynol:
- i. sicrhau bod polisiâu a ddewisir i'w hadolygu yn mynd i'r afael â meysydd lle y gellid atgyfnerthu deilliannau lles staff a dysgwyr, neu lle nad yw'r trefniadau presennol yn adlewyrchu arferion, deddfwriaeth neu flaenoriaethau sefydliadol cyfredol mwyach;
 - ii. ystyried effeithiau ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn seiliedig ar asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb;
 - iii. sicrhau y glynir wrth egwyddorion y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr;
 - iv. defnyddio data ar les staff a dysgwyr i ganfod bylchau a llywio gwelliannau;
 - v. sefydlu amserlenni adolygu a threfniadau atebolrwydd clir;

- vi. sicrhau goruchwyliaeth corff llywodraethu lle bo hynny'n ofynnol yn ôl trefniadau llywodraethu mewnol.
27. Wrth gynllunio adolygiadau o bolisiau staff, dylai darparwyr hefyd gynnwys staff a gweithio gydag undebau llafur (lle bo hynny'n briodol) a grwpiau cynrychioli perthnasol.

Adrannau pedwar a saith: Risgiau a materion staff a dysgwyr

Egwyddorion cyffredinol

28. Mae risgiau a materion yn gysylltiedig ond yn wahanol i'w gilydd. Mae risg yn disgrifio digwyddiad neu amgylchiad posibl yn y dyfodol a all effeithio ar les staff neu ddysgwyr. Mae mater yn disgrifio problem sydd eisoes yn digwydd. Mewn rhai achosion, bydd risg yn troi'n fater, a gall mater sydd eisoes yn bodoli achosi un neu fwy o risgiau yn y dyfodol. Lle y bo'n briodol, gall darparwyr gofnodi mater a risg gysylltiedig, ar yr amod bod y cofnodion yn disgrifio agweddau gwahanol ar yr hyn sydd dan sylw. Dylai'r mater ganolbwyntio ar y sefyllfa bresennol a'r ffordd y caiff ei rheoli, a dylai'r risg ganolbwyntio ar y canlyniadau posibl yn y dyfodol os bydd mesurau rheoli'n aneffeithiol neu'n arwain at risgiau ychwanegol.
29. Wrth gofnodi risgiau a materion, dylai darparwyr wneud y canlynol:
- i. seilio cofnodion ar dystiolaeth a chanfyddiadau hunanwerthusiad cymeradwy;
 - ii. cofnodi mesurau rheoli ataliol ac adweithiol;
 - iii. enwi perchennog atebol penodol;
 - iv. adolygu risgiau a materion yn rheolaidd;
 - v. uwchgfyfeirio pryderon sylweddol drwy drefniadau llywodraethu;
 - vi. sicrhau bod lleisiau staff, canfyddiadau arolygon a data ar ddigwyddiadau'n llywio asesiadau;
 - vii. cadw cyfrinachedd pan fydd achosion unigol dan sylw;
 - viii. monitro tueddiadau sy'n gysylltiedig â llesiant, aflonyddu, trais, camymddwyn ac achosion o gasineb drwy gydol y cyfnod 2026–2028.

Rhan A: Risgiau staff a dysgwyr

30. Digwyddiad neu amgylchiad posibl yn y dyfodol a allai effeithio ar les staff neu ddysgwyr yw risg.
31. Dylai risg i les staff neu ddysgwyr:
- i. ddisgrifio digwyddiad neu amgylchiad posibl yn y dyfodol, nid amgylchiad sydd eisoes yn bodoli;
 - ii. cael ei mynegi yn nhermau'r hyn a allai ddigwydd pe bai mesurau rheoli'n methu neu'n annigonol;
 - iii. canolbwyntio ar risgiau â thebygolrwydd ac effaith gynhenid ganolig neu uwch cyn i fesurau rheoli gael eu hystyried;
 - iv. bod yn seiliedig ar dystiolaeth a hunanwerthusiad lles y darparwr;
 - v. cael ei hadolygu'n rheolaidd drwy drefniadau llywodraethu a diogelu.
32. Mae gwybodaeth am sut i gwblhau pob maes yn y templed i'w gweld isod.

Rhif adnabod y risg	Rhowch rif cyfeirnod unigryw. <i>Enghraifft: RSW-001.</i>																					
Categori'r risg	Dewiswch y categorïau perthnasol ar gyfer y risg o fewn y diffiniad o les staff a dysgwyr – gall risgiau berthyn i sawl categori. Mae gwybodaeth ar gyfer categoreiddio i'w gweld yn Nhabl 1 Atodiad A.																					
Disgrifiad o'r risg (risg gynhenid)	<p>Disgrifiwch y risg i les staff neu ddysgwyr. Dylai'r disgrifiad nodi'n glir yr hyn a allai ddigwydd, ar bwy y gall hynny effeithio, a'r effaith bosibl.</p> <p>Dyma fformat defnyddiol i'w ddilyn:</p> <p><i>“Ceir risg y gall [digwyddiad neu amgylchiad] ddigwydd oherwydd [rheswm], gan arwain at [effaith ar les staff a deilliannau'r sefydliad].”</i></p> <p>Rhaid i'r disgrifiad o'r risg gynnwys asesiad o'r ‘tebygolrwydd’ a'r ‘effaith’, gan ddefnyddio matrices risgiau presennol y darparwr.</p> <p>Mae tebygolrwydd yn asesu pa mor debygol yw'r risg o ddigwydd, gan ystyried amgylchiadau a thystiolaeth gyfredol, gan gynnwys data. Mae effaith yn asesu'r canlyniadau posibl pe bai'r risg yn digwydd.</p> <p>Enghraifft</p> <p>Mae matrices risgiau enghreifftiol wedi cael ei gynnwys at ddibenion esboniadol yn unig. Rhaid i ddarparwyr ddefnyddio eu matrices risgiau sefydliadol eu hunain.</p> <table><tr><th></th><th>Tebygolrwydd</th><th>Effaith</th></tr><tr><th>Sgôr</th><th>Disgrifiad</th><th>Disgrifiad</th></tr><tr><td>1</td><td>Prin</td><td>Dibwys</td></tr><tr><td>2</td><td>Annhebygol</td><td>Mân</td></tr><tr><td>3</td><td>Posibl</td><td>Cymedrol</td></tr><tr><td>4</td><td>Tebygol</td><td>Mawr</td></tr><tr><td>5</td><td>Bron yn sicr</td><td>Difrifol</td></tr></table> <p>Cyfrifwch sgôr y risg gan ddefnyddio matrices tebygolrwydd ac effaith y darparwr. Dylai'r sgôr adlewyrchu lefel bresennol y risg cyn i unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig gael eu rhoi ar waith (y risg gynhenid).</p>		Tebygolrwydd	Effaith	Sgôr	Disgrifiad	Disgrifiad	1	Prin	Dibwys	2	Annhebygol	Mân	3	Posibl	Cymedrol	4	Tebygol	Mawr	5	Bron yn sicr	Difrifol
	Tebygolrwydd	Effaith																				
Sgôr	Disgrifiad	Disgrifiad																				
1	Prin	Dibwys																				
2	Annhebygol	Mân																				
3	Posibl	Cymedrol																				
4	Tebygol	Mawr																				
5	Bron yn sicr	Difrifol																				

	<p>Sgôr gyffredinol y risg = Tebygolrwydd x Effaith</p> <table><tr><td rowspan="5">Tebygolrwydd</td><td>5</td><td>C</td><td>C</td><td>U</td><td>U</td><td>U</td></tr><tr><td>4</td><td>I</td><td>C</td><td>C</td><td>U</td><td>U</td></tr><tr><td>3</td><td>I</td><td>I</td><td>C</td><td>C</td><td>U</td></tr><tr><td>2</td><td>I</td><td>I</td><td>I</td><td>C</td><td>C</td></tr><tr><td>1</td><td>I</td><td>I</td><td>I</td><td>I</td><td>C</td></tr><tr><td colspan="2"></td><td>1</td><td>2</td><td>3</td><td>4</td><td>5</td></tr><tr><td colspan="2"></td><td colspan="5">Effaith</td></tr></table>	Tebygolrwydd	5	C	C	U	U	U	4	I	C	C	U	U	3	I	I	C	C	U	2	I	I	I	C	C	1	I	I	I	I	C			1	2	3	4	5			Effaith				
Tebygolrwydd	5		C	C	U	U	U																																							
	4		I	C	C	U	U																																							
	3		I	I	C	C	U																																							
	2		I	I	I	C	C																																							
	1	I	I	I	I	C																																								
		1	2	3	4	5																																								
		Effaith																																												
Mesurau lliniaru/rheoli (ar waith)	Disgrifiwch y mesurau sydd eisoes ar waith ac sy'n lleihau tebygolrwydd neu effaith y risg. Gall hyn gynnwys polisïau, prosesau, trefniadau monitro, neu adnoddau a ddefnyddir ar hyn o bryd.																																													
Mesurau lliniaru/rheoli i gael eu sefydlu	Nodwch gamau gweithredu penodol a fydd yn lleihau'r risg ymhellach. Dylai camau gweithredu fod yn realistig, yn fesuradwy, ac wedi'u cysylltu'n glir â'r risg.																																													
Risg weddilliol	Amcangyfrifwch lefel y risg a fydd yn weddill ar ôl i'r camau lliniaru arfaethedig gael eu cymryd. Dylai hyn adlewyrchu'r sefyllfa a ragwelir yn y dyfodol, yn hytrach na lefel bresennol y risg.																																													
Statws y risg	Nodwch statws y risg, sy'n dangos sefyllfa bresennol y risg a ph'un a yw'n debygol o newid dros amser ai peidio.																																													
Perchennog y risg	Neilltuwch y risg i'r unigolyn sydd â digon o awdurdod ac atebolrwydd i reoli a goruchwyllo'r risg. Perchennog y risg fydd yn gyfrifol am sicrhau bod mesurau rheoli a chamau gweithredu'n parhau i fod yn effeithiol.																																													
Llwybr uwchgyfeirio	Bydd llwybr uwchgyfeirio'r risg yn sicrhau y caiff unrhyw risgiau a nodir eu hadolygu ac yr eir i'r afael â nhw ar y lefel llywodraethu briodol. Dilynwch bolisi a phroses uwchgyfeirio risg a threfniadau llywodraethu eich darparwr.																																													
Dyddiad adolygu diwethaf	Nodwch pryd y cafodd y risg ei hadolygu ddiwethaf. Defnyddiwch y fformat DD/MM/BBBB.																																													
Dyddiad adolygu nesaf	Nodwch pryd y caiff y risg ei hadolygu nesaf. Dylai'r amllder adolygu fod yn gymesur ag arwyddocâd y risg a'i thebygolrwydd o newid. Defnyddiwch y fformat DD/MM/BBBB.																																													

Enghraifft – Risg staff

1.	Rhif adnabod y risg	Risg Staff Enghreifftiol 001		
	Categori'r risg	☒ Llesiant emosiynol ☐ Iechyd meddwl ☐ Camymddwyn ☐ Aflonyddu ☐ Trais ☒ Trais rhywiol neu aflonyddu rhywiol ☐ Trosedd gasineb		
	Disgrifiad o'r risg (risg gynhenid)	<p>Gan ddefnyddio matrices risgiau 5x5 cymeradwy ei gorff llywodraethu, cynhaliodd Darparwr X asesiad a ddaeth i'r casgliad mai tebygolrwydd y risg gynhenid ganlynol yw 'Posibl', ac mai 'Mawr' fyddai ei heffaith, gan arwain at sgôr risg gyffredinol 'Uchel'.</p> <p>Gall staff sy'n rhan o'r broses o dderbyn datgeliadau, ymchwilio i achosion, cefnogi dysgwyr, neu reoli achosion sy'n gysylltiedig â thrais rhywiol a chamymddwyn rhywiol brofi trawma, gofid emosiynol, salwch cysylltiedig â straen, gorflinder, neu ddirywiad yn eu llesiant. Gall hyn arwain at absenoldeb oherwydd salwch, llai o effeithiolrwydd wrth reoli achosion, trosiant staff, ac effeithiau posibl ar gymorth i ddysgwyr a deilliannau diogelu.</p>		
	Mesurau lliniaru neu reoli (ar waith)	<p>Mae Darparwr X wedi rhoi'r cymorth canlynol ar waith ar gyfer staff:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Rhaglen Cymorth i Gyflogeion sy'n cynnig gwasanaeth cwnsela cyfrinachol. b) Atgyfeiriadau iechyd Galwedigaethol ar gyfer pryderon yn ymwneud â llesiant. 		
	Mesurau lliniaru neu reoli i gael eu sefydlu	<p>Camau dilynol i gael eu cymryd:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Cyflwyno sgysiau llesiant chwarterol ar gyfer staff sy'n delio ag achosion o gamymddwyn rhywiol, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Rhagfyr 2026. b) Rhoi hyfforddiant arbenigol ar oruchwyliaeth sy'n ystyriol o drawma i bob rheolwr llinell, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Chwefror 2027. c) Sefydlu proses ffurfiol ar gyfer ôl-drafod yn dilyn digwyddiad, Arweinydd Diogelu, Tachwedd 2026. 		
	Risg weddilliol	<p>Ar ôl i'r mesurau rheoli ychwanegol gael eu rhoi ar waith, ac yn dilyn tystiolaeth o'u heffeithiolrwydd, disgwylir i'r tebygolrwydd leihau o 'Posibl' i 'Annhebygol', tra bydd yr effaith yn parhau i fod wedi'i chofnodi fel 'Mawr', gan arwain at sgôr risg weddilliol 'Cymedrol'. Nes y caiff effeithiolrwydd y mesurau rheoli ei ddangos drwy waith monitro ac adolygu, bydd y risg yn parhau i gael ei rheoli ar sail ei sgôr 'Uchel' gyfredol.</p>		
	Perchennog y risg	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol	Llwybr uwchgyfeirio	Pwyllgor Diogelu a Lles
	Statws y risg	☐ Newydd ☒ Ar agor ☐ Sefydlog ☐ Yn cynyddu ☐ Yn lleihau ☐ Wedi'i huwchgyfeirio ☐ Wedi'i chau	Dyddiad adolygu diwethaf Dyddiad adolygu nesaf	01/09/2026 01/12/2026

Enghraifft – Risg dysgwyr

1.	Rhif adnabod y risg	Risg Dysgwyr Enghreifftiol 001
	Categori'r risg	☒ Llesiant emosiynol ☒ Iechyd meddwl ☐ Camymddwyn ☐ Aflonyddu ☐ Trais ☐ Trais rhywiol neu aflonyddu rhywiol ☐ Trosedd gasineb
	Disgrifiad o'r risg (risg gynhenid)	<p>Gan ddefnyddio matrices risgiau 5x5 cymeradwy ei gorff llywodraethu, cynhaliodd Darparwr X asesiad a ddaeth i'r casgliad mai tebygolrwydd y risg gynhenid ganlynol yw 'Posibl', ac mai 'Mawr' fyddai ei heffaith, gan arwain at sgôr risg gyffredinol 'Uchel'.</p> <p>Ceir risg y gall dysgwyr wynebu heriau sylweddol mewn perthynas â'u hiechyd meddwl a'u llesiant emosiynol oherwydd pwysau academiaidd, caledi ariannol ac anallu i adnabod pryderon sy'n datblygu yn ddigon cynnar. Gall hyn arwain at lai o ymgysylltu, presenoldeb gwael, cyflawniad is, mwy o achosion o dynnu'n ôl, pryderon diogelu, ac effeithiau andwyol ar ddeilliannau dysgwyr a pherfformiad y darparwr.</p>
	Mesurau lliniaru/rheoli (ar waith)	<p>Mae Darparwr X wedi rhoi'r cymorth canlynol ar waith ar gyfer dysgwyr:</p> <ol style="list-style-type: none"> Polisiâu diogelu a lles dysgwyr. Trefniadau Arweinydd Diogelu Dynodedig a Dirprwy Arweinydd Diogelu Dynodedig. Staff diogelu a thimau cefnogi lles hyfforddedig. Llwybrau atgyfeirio iechyd meddwl a llesiant. Prosesau tiwtor personol ac adolygiadau dysgwyr. Gweithdrefnau monitro presenoldeb ac ymyrryd yn gynnar. Proses sefydlu dysgwyr sy'n ymdrin â gwasanaethau cymorth a ffyrdd o roi gwybod am bryderon. Cyfleoedd i gael gwasanaethau cwnsela, adnoddau llesiant a gwasanaethau arbenigol allanol. System ar gyfer rhoi gwybod am bryderon sy'n ymwneud â diogelu a llesiant. Adolygiadau rheolaidd o ddata lles drwy bwyllgorau diogelu ac ansawdd. Hyfforddiant staff ar adnabod pryderon llesiant ac ymateb iddynt.
	Mesurau lliniaru/rheoli i gael eu sefydlu	<p>Camau dilynol i gael eu cymryd:</p> <ol style="list-style-type: none"> Ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth dysgwyr o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael. Tîm Marchnata a Gwasanaethau Dysgwyr, 31/10/2026. Rhoi hyfforddiant ychwanegol ar ymwybyddiaeth o iechyd meddwl i staff addysgu a chymorth. Rheolwr Adnoddau Dynol, 31/01/2027. Atgyfnerthu cysylltiadau ag asiantaethau iechyd meddwl a chymorth lleol er mwyn gwella'r gallu i atgyfeirio. Arweinydd Diogelu, 31/12/2026.
	Risg weddilliol	<p>Ar ôl i'r mesurau rheoli ychwanegol gael eu rhoi ar waith, ac yn dilyn tystiolaeth o'u heffeithiolrwydd, disgwylir i'r tebygolrwydd barhau i gael ei nodi fel 'Posibl', tra bydd yr effaith yn lleihau i 'Cymedrol', gan arwain at sgôr 'Canolig' i'r risg weddilliol. Nes y caiff effeithiolrwydd y mesurau rheoli ei ddangos drwy waith monitro ac adolygu, bydd y risg yn parhau i gael ei rheoli ar sail ei sgôr Uchel gyfredol.</p>

	Perchennog y risg	Pennaeth Gwasanaethau Cymorth i Fyfrwyr	Llwybr uwchgyfeirio	Uwch-dîm Arwain Pwyllgor Archwilio a Risg Corff Llywodraethu/Bwrdd y Cyfarwyddwyr
	Statws y risg	☐ Newydd ☒ Ar agor ☒ Sefydlog ☐ Yn cynyddu ☐ Yn lleihau ☐ Wedi'i huwchgyfeirio ☐ Wedi'i chau	Dyddiad adolygu diwethaf	19/08/2026
			Dyddiad adolygu nesaf	19/11/2026

Rhan B: Materion staff a dysgwyr

33. Problem bresennol sydd eisoes yn digwydd ac mae angen cymryd camau i'w rheoli yw mater. Yn wahanol i risg, mae mater yn digwydd nawr, yn hytrach na'i bod yn bosibl y bydd yn digwydd yn y dyfodol.
34. Rhaid i ddarparwyr adnabod a chynnwys materion sy'n gysylltiedig â chefnogi a hybu lles staff a dysgwyr. Mae 'trefniadau' lles staff a dysgwyr yn cynnwys polisïau, gweithdrefnau a gwasanaethau sy'n hybu ac yn cefnogi llesiant a diogelwch staff.
35. Mae gwybodaeth am sut i gwblhau pob maes yn y templed i'w gweld isod.

Rhif adnabod y mater	Rhowch rif cyfeirnod unigryw. <i>Enghraifft: ISW-001.</i>
Categori'r mater	Dewiswch y categorïau perthnasol ar gyfer y mater o fewn y diffiniad o les staff a dysgwyr – gall materion berthyn i sawl categori. Mae gwybodaeth ar gyfer categoreiddio i'w gweld yn Nhabl 1 Atodiad A.
Disgrifiad o'r mater	Disgrifiwch y mater sy'n gysylltiedig â lles staff neu ddysgwyr, gan gynnwys beth sy'n digwydd nawr, ar bwy y mae'n effeithio, a beth yw'r effaith arnynt.
Mesurau rheoli/datrys (ar waith)	Disgrifiwch y mesurau sydd eisoes ar waith i reoli a datrys y mater. Gall hyn gynnwys polisïau, prosesau, trefniadau monitro, neu adnoddau a ddefnyddir ar hyn o bryd.
Mesurau rheoli/datrys i gael eu sefydlu	Nodwch a disgrifiwch fesurau a gaiff eu rhoi ar waith i reoli a datrys y mater yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd, gan gynnwys sut y cânt eu mesur a'u hadolygu. Dylai camau gweithredu fod yn realistig, yn fesuradwy, ac wedi'u cysylltu'n glir â'r mater penodol.
Perchennog y mater	Neilltuwch y mater i'r unigolyn sydd â digon o awdurdod ac atebolrwydd i reoli a goruchwyllo'r mater. Perchennog y mater sy'n gyfrifol am sicrhau bod y mater yn parhau i gael ei reoli'n effeithiol ac y caiff y mater wedyn ei ddatrys a'i fonitro rhag ofn iddo godi eto.
Dyddiad nodi	Rhowch fanylion pryd y cafodd y mater ei nodi. Defnyddiwch y fformat DD/MM/BBBB.
Statws y mater	Nodwch statws y mater, sy'n dangos sefyllfa bresennol y mater, a nodwch p'un a yw'n debygol o newid dros amser ai peidio.

Enghraifft – Mater staff

1.	Rhif adnabod y mater	Mater Staff Enghreifftiol 001
	Categori'r mater	☒ Llesiant emosiynol ☐ Iechyd meddwl ☐ Camymddwyn ☐ Aflonyddu ☐ Trais ☐ Trais rhywiol neu aflonyddu rhywiol ☐ Trosedd gasineb
	Disgrifiad o'r mater	<p>Yn yr arolwg staff a gynhaliodd Darparwr X yn 2026, rhoddodd 56% o'r tiwtoriaid wybod am straen cysylltiedig â gwaith, o gymharu â 41% yn y flwyddyn flaenorol. Cofnodwyd tri absenoldeb cysylltiedig â straen yn ystod y chwarter blaenorol.</p> <p>Pe na bai'n cael ei reoli, gallai'r mater arwain at gynydd mewn absenoldeb oherwydd salwch, gostyngiad mewn lefelau ymgysylltu ymhlith y staff, heriau o ran recriwtio a chadw staff, a dirywiad mewn ansawdd gwasanaethau.</p>
	Mesurau rheoli/datrys (ar waith)	<p>Mae Darparwr X wedi rhoi'r trefniadau canlynol ar waith:</p> <p>a) Rhaglen Cymorth i Gyflogeion a chymorth iechyd galwedigaethol.</p>
	Mesurau rheoli/datrys i gael eu sefydlu	<p>Camau dilynol i gael eu cymryd:</p> <ol style="list-style-type: none"> Cyflwyno arolygon pwls llesiant chwarterol o fis Gorffennaf 2026 ymlaen, gan rannu'r canlyniadau â'r Uwch-dîm Arwain o fewn pedair wythnos i bob arolwg a datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer meysydd sy'n destun pryder. Rhoi hyfforddiant rheoli straen ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl i 100% o'r rheolwyr llinell erbyn mis Rhagfyr 2028. Sefydlu Gweithgor Llesiant Tiwtoriaid er mwyn cynnig fforwm ar gyfer trafodaeth, adborth a chreu datrysiadau ar y cyd. <p><u>Mesurau llwyddiant</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Gostwng lefel y straen cysylltiedig â gwaith a gofnodir gan diwtoriaid o 58% i lai na 40% erbyn mis Mehefin 2028. Gostwng lefel yr absenoldebau cysylltiedig â straen 15% dros gyfnod y cynllun gweithredu. Cynyddu cyfranogiad mewn mentrau llesiant a gwasanaethau cymorth. <p><u>Trefniadau adolygu</u></p> <p>Bydd y Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant yn adolygu cynnydd bob chwarter ac yn adrodd i'r Uwch-dîm Arwain. Caiff unrhyw achosion o gynydd sylweddol mewn absenoldeb, trosiant neu bryderon llesiant eu huwchgysirio ar unwaith drwy broses lywodraethu'r sefydliad.</p>
	Perchennog y mater	Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant

	Dyddiad nodi	15/05/2026	Statws y mater	☒ Ar agor ☒ Yn mynd rhagddo ☐ Wedi'i ddatrys ☐ Wedi'i gau Camau lliniaru straen cysylltiedig â gwaith yn mynd rhagddynt. Nid yw'r mesurau llwyddiant wedi cael eu cyflawni eto.
--	--------------	------------	----------------	---

Enghraifft – Mater dysgwyr

1.	Rhif adnabod y mater	Mater Dysgwyr Enghreifftiol 001
	Categori'r mater	☐ Llesiant emosiynol ☐ Iechyd meddwl ☐ Camymddwyn ☐ Aflonyddu ☐ Trais ☒ Trais rhywiol neu aflonyddu rhywiol ☐ Trosedd gasineb
	Disgrifiad o'r mater	<p>Yn ystod cyfnod arolwg llais y dysgwr ac adroddiad diogelu 2026, rhoddodd nifer o ddysgwyr wybod am sylwadau rhywiol digroeso, negeseuon amhriodol drwy'r cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau dysgu, ac ymddygiad o natur rhywiol gan gyfoedion a wnaeth iddynt deimlo'n anghyfforddus, yn ofnus neu'n annïogel.</p> <p>Cofnodwyd tri phryder diogelu ffurfiol a oedd yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol yn ystod y flwyddyn academiaidd flaenorol. Roedd adborth ansoddol gan ddysgwyr yn dangos bod rhai unigolion yn aneglur ynglŷn â gweithdrefnau rhoi gwybod ac yn brin o hyder y byddai pryderon yn cael sylw prydlon.</p> <p>Gall aflonyddu rhywiol gael effaith sylweddol ar lesiant dysgwyr, eu presenoldeb, eu lefelau ymgysylltu, eu cyflawniad a'u hymdeimlad o berthyn. Pe na bai'n cael ei reoli, gallai'r mater arwain at gynydd mewn pryderon diogelu, deilliannau gwaeth i ddysgwyr, llai o hyder ym mhrosesau'r darparwr, a risg i enw da'r sefydliad.</p>
	Mesurau rheoli/datrys (ar waith)	<p>Mae Darparwr X wedi rhoi'r trefniadau canlynol ar waith:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Mae'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr a'r Polisi Diogelu yn datgan yn glir bod aflonyddu rhywiol ac ymddygiad amhriodol wedi'u gwahardd. b) Mae Arweinwyr Diogelu Dynodedig a dulliau rhoi gwybod am bryderon diogelu ar waith, gan gynnwys ffyrdd o roi gwybod yn gyfrinachol. c) Caiff hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu a ffiniau proffesiynol ei roi i'r staff. d) Rhoddir gwybodaeth sefydlu i'r dysgwyr am ymddygiad parchus, rhoi gwybod am bryderon, a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael.
	Mesurau rheoli/datrys i gael eu sefydlu	<p>Camau dilynol i gael eu cymryd:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Cynnal sesiynau ymwybyddiaeth blynyddol ar gyfer yr holl ddysgwyr, gan ymdrin â chydsyniad, perthnasoedd llawn parch, ymyrryd mewn sefyllfaoedd niweidiol, a gweithdrefnau rhoi gwybod. b) Adolygu ac atgyfnerthu'r dulliau i ddysgwyr roi gwybod am bryderon er mwyn sicrhau y gellir codi pryderon yn gyfrinachol, yn hawdd ac yn ddiogel. c) Cyflwyno ymgyrchoedd wedi'u targedu drwy gydol y flwyddyn academiaidd gan hyrwyddo diwylliant o urddas, parch, a pheidio â goddef aflonyddu rhywiol. d) Rhoi hyfforddiant estynedig i'r holl staff ar adnabod pryderon sy'n ymwneud ag aflonyddu rhywiol, ymateb iddynt, eu cofnodi, a'u huwchgyfeirio.

	<p>e) Sefydlu Gweithgor Diogelwch a Pharch Dysgwyr er mwyn adolygu themâu, canfod risgiau sy'n datblygu, a chreu datrysiadau ar y cyd â dysgwyr.</p> <p>f) Cynnal dadansoddiadau tymhorol o ddata diogelu sy'n ymwneud ag aflonyddu rhywiol a rhannu'r canfyddiadau â'r Uwch-dîm Arwain.</p> <p><u>Mesurau llwyddiant</u></p> <p>a) Codi lefel ymwybyddiaeth y dysgwyr o ffyrdd o roi gwybod am bryderon i 90% o leiaf erbyn mis Gorffennaf 2028, a mesur hynny drwy arolygon dysgwyr.</p> <p>b) Sicrhau bod 100% o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o aflonyddu rhywiol a diogelu erbyn mis Rhagfyr 2027.</p> <p>c) Cynyddu'r cyfraddau rhoi gwybod am bryderon yn y tymor byr, gan ddangos cynnydd mewn hyder yn y dulliau rhoi gwybod.</p> <p><u>Mesurau adolygu</u></p> <p>Bydd yr Arweinydd Diogelu Dynodedig a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr yn adolygu cynnydd bob chwarter ac yn adrodd i'r Uwch-dîm Arwain. Caiff digwyddiadau difrifol eu huwchgyfeirio ar unwaith, yn unol â gweithdrefnau diogelu a threfniadau llywodraethu'r sefydliad. Caiff canlyniadau arolygon dysgwyr blynyddol a data diogelu eu defnyddio i werthuso effeithiolrwydd camau gweithredu a nodi unrhyw ymyriadau ychwanegol y bydd eu hangen.</p>		
Perchennog y mater	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr/Arweinydd Diogelu Dynodedig		
Dyddiad nodi	15/05/2026	Statws y mater	☒ Ar agor ☐ Yn mynd rhagddo ☐ Wedi'i ddatrys ☐ Wedi'i gau <p>Mae'r mesurau diogelu presennol ar waith ac mae camau atal a chodi ymwybyddiaeth ychwanegol wrthi'n cael eu cyflwyno. Nid yw'r mesurau llwyddiant wedi cael eu cyflawni eto a bydd cynnydd yn parhau i gael ei fonitro drwy'r broses adrodd ar gyfer diogelu a phrofiad dysgwyr.</p>

Adrannau pump ac wyth: Camau gweithredu staff a dysgwyr

36. Mae'r adrannau hyn yn gofyn am wybodaeth am gamau gweithredu sydd wedi'u cynllunio, neu a fydd yn cael eu cymryd, i hybu a chefnogi lles staff a dysgwyr yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd.
37. Dylai camau gweithredu gael eu llywio gan ganfyddiadau hunanwerthusiad y darparwr, risgiau lles a nodwyd, a materion allweddol yr eir i'r afael â nhw drwy gydol cyfnod dwy flynedd y cynllun gweithredu.
38. Er mwyn lleihau baich a dyblygu i ddarparwyr addysg uwch ac addysg bellach, ni fydd Medr yn gofyn iddynt lunio cynlluniau gweithredu ar wahân ar gyfer cyllid llesiant mwyach o 2026/27 ymlaen. Yn lle hynny, bydd buddsoddiad arfaethedig darparwyr yn rhan o'r cynllun gweithredu dwy flynedd ar gyfer lles. Felly, mae'n hanfodol bod yr holl weithgareddau, hyfforddiant, gwasanaethau ac adnoddau a gaiff eu cyllido gan Medr ac sy'n cefnogi lles staff a dysgwyr yn cael eu cynnwys yn y templed cynllun gweithredu ar gyfer lles gan ddefnyddio'r adran briodol sy'n ymwneud â chyllid. Ni ddisgwylir i'r holl gamau gweithredu godi yn sgil risg neu fater a gofnodwyd lle y bônt yn deillio o ganfyddiadau hunanwerthusiadau a darpariaeth llesiant sydd eisoes yn cael ei chyllido gan Medr.
39. Bydd unrhyw newidiadau i weithgareddau, hyfforddiant, gwasanaethau neu adnoddau a gaiff eu cyllido gan Medr yn cael eu rheoli drwy'r broses sicrwydd flynyddol.
40. Mae gwybodaeth am sut i gwblhau pob maes yn y templed i'w gweld isod. Yn ychwanegol at hynny, dylai darparwyr wneud y canlynol:
 - i. cadw disgrifiadau'n ffeithiol ac yn gryno;
 - ii. cynnal ffocws ar y ffordd y bydd camau gweithredu'n gwella llesiant, diogelwch, cynhwysiant neu gymorth staff a dysgwyr;
 - iii. sicrhau bod gwybodaeth benodol a roddir (gan gynnwys dyddiadau, manylion cyllid, a gwybodaeth am y sector) yn gywir;
 - iv. defnyddio tystiolaeth gyson o hunanwerthusiadau lles ac asesiadau risg er mwyn dangos cysondeb strategol drwy'r darparwr cyfan;
 - v. cadw dogfennau ategol a gwybodaeth adroddadwy lle y caiff camau gweithredu eu cyllido drwy fuddsoddiad Medr (e.e. dyraniadau o'r Gronfa Llesiant ac Iechyd Meddwl Addysg Uwch neu'r Gronfa Cymorth a Llesiant Dysgwyr Addysg Bellach).

Teitl y cam gweithredu	<p>Rhowch enw'r cam gweithredu.</p> <p>Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd y cam gweithredu'n gyffredinol, megis 'Menter lleihau straen cysylltiedig â gwaith ymhlith tiwtoriaid' ac, mewn achosion eraill, mae'n bosibl y bydd yn fwy penodol, megis 'Rhoi hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl'. Dylai darparwyr arfer eu crebwyll er mwyn penderfynu ar y teitl mwyaf priodol a disgrifiadol ar gyfer y cam gweithredu.</p>
Math o gam gweithredu	<p>Nodwch y math o gam gweithredu, a all fod yn gysylltiedig â darparu weithgareddau, hyfforddiant, gwasanaethau, adnoddau, neu unrhyw gyfuniad o'r rhain. Gall darparwyr ddewis un neu fwy o'r opsiynau fel y bo'n berthnasol.</p>

Perchennog y cam gweithredu	Neilltuwch y cam gweithredu i'r unigolyn sydd â digon o awdurdod ac atebolrwydd i reoli'r cam gweithredu. Perchennog y cam gweithredu sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff y cam ei gymryd, ei fonitro a'i werthuso.
Disgrifiad o'r cam gweithredu	<p>Disgrifiwch y cam a gaiff ei gymryd.</p> <p>Rhowch grynodedd byr sy'n amlinellu'r canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> yr hyn y mae'r gweithgaredd, hyfforddiant, gwasanaeth neu adnodd yn ei gynnwys; y diben a fwriedir a'r buddiannau disgwyledig; y grwpiau staff neu ddysgwyr y bydd yn eu cefnogi; enwau neu deitlau ymyriadau a/neu hyfforddiant penodol; unrhyw staff neu amser staff a fydd yn rhan o'r cam gweithredu; y sector(au) addysg perthnasol lle y bydd y darparwr yn ymdrin â mwy nag un math o ddarpariaeth, megis: <ol style="list-style-type: none"> addysg bellach; addysg uwch; dysgu oedolion a'r gymuned; neu brentisiaethau neu ddysgu seiliedig ar waith, gan nodi camau gweithredu aml-sector lle bo hynny'n berthnasol. <p>Gellir defnyddio'r maes disgrifiad i grwpio gweithgareddau, hyfforddiant, gwasanaethau ac adnoddau cysylltiedig o dan un cam gweithredu (gweler yr enghreifftiau ar gyfer staff a dysgwyr isod).</p> <p>Os byddwch yn gwneud hyn, sicrhewch fod unrhyw weithgareddau, hyfforddiant, gwasanaethau neu adnoddau a gaiff eu cyllido drwy Gronfa Llesiant ac Iechyd Meddwl Addysg Uwch neu Gronfa Cymorth a Llesiant Dysgwyr Addysg Bellach Medr yn cael eu nodi'n glir yn adran olaf y templed.</p> <p>Mae'n bosibl y bydd rhai camau gweithredu'n berthnasol i staff a dysgwyr (er enghraifft, gall hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth staff o lesiant hefyd arwain at ddeilliannau cadarnhaol anuniongyrchol i ddysgwyr). Yn yr achosion hyn, ni ddylai camau gweithredu gael eu dyblygu rhwng y templedi staff a dysgwyr, ond dylai darparwyr arfer eu crebwyll er mwyn penderfynu pa dempled yw'r mwyaf priodol ar gyfer cofnodi'r cam gweithredu.</p> <p>Sicrhewch nad yw'r disgrifiad yn hwy na'r terfyn geiriau o 200 o eiriau.</p>
Cysondeb â'r hunanwerthusiad	Nodwch a yw'r cam gweithredu'n ymateb i ganfyddiadau o hunanwerthusiad lles y darparwr.
Cysondeb â risgiau a/neu faterion a nodwyd	Nodwch a yw'r cam gweithredu'n mynd i'r afael â risgiau, materion, mesurau lliniaru neu fesurau rheoli a nodir yn adrannau risgiau a materion lles y cynllun gweithredu.

Deilliannau llesiant a diogelwch	Nodwch a yw'r cam gweithredu'n helpu i gyflawni deilliannau llesiant a diogelwch yn uniongyrchol.
Dyddiadau dechrau/gorffen y cam gweithredu	Cofnodwch ddyddiadau dechrau/gorffen y gweithgaredd (os yw hynny'n berthnasol). Defnyddiwch y fformat DD/MM/BBBB ar gyfer y ddau faes.
Argaeledd o fewn sefydliadau breiniol/partner (templedi addysg uwch ac addysg bellach yn unig)	Nodwch a yw'r cam gweithredu ar gael yn llawn, neu'n rhannol, i staff neu ddysgwyr o fewn sefydliadau breiniol neu bartner (os oes gan y darparwr drefniadau o'r fath). Lle bo rhan(nau) o gam gweithredu ar gael, nodwch pa ran(nau).
Argaeledd yn y Gymraeg	Nodwch a yw'r cam gweithredu ar gael yn llawn, neu'n rhannol, drwy gyfrwng y Gymraeg. Lle bo rhan(nau) o gam gweithredu ar gael yn y Gymraeg, nodwch pa ran(nau).
Argaeledd i ddysgwyr ôl-raddedig (dysgwyr addysg uwch yn unig)	Nodwch a yw'r cam gweithredu ar gael yn llawn, neu'n rhannol, i ddysgwyr ôl-raddedig (dysgwyr a addysgir neu ddysgwyr ymchwil). Lle bo rhan(nau) o gam gweithredu ar gael i ddysgwyr ôl-raddedig, nodwch pa ran(nau).
Argaeledd i ddysgwyr rhyngwladol (dysgwyr addysg uwch yn unig)	Nodwch a yw'r cam gweithredu ar gael yn llawn, neu'n rhannol, i ddysgwyr rhyngwladol. Lle bo rhan(nau) o gam gweithredu ar gael i ddysgwyr rhyngwladol, nodwch pa ran(nau).
Deilliant disgwyledig a metrigau	Disgrifiwch ddeilliant disgwyledig y cam gweithredu, gan gynnwys i'r graddau y mae'n ymwneud â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> i. mynd i'r afael â bylchau a nodwyd yn hunanwerthusiad lles y darparwr; ii. mynd i'r afael â risgiau a materion a nodwyd, neu roi mesurau rheoli neu liniaru ar waith ar eu cyfer; iii. helpu i gyflawni deilliannau llesiant a diogelwch. <p>Disgrifiwch sut y caiff effaith y cam gweithredu ei mesur a'i monitro, a sut mae'r darparwr wedi diffinio 'llwyddiant' yng nghydestun y cam gweithredu.</p>
Defnydd o fuddsoddiad Medr (templedi addysg uwch ac addysg bellach yn unig)	Nodwch a yw'r cam gweithredu'n cael ei gyllido'n llawn neu'n rhannol drwy Gronfa Llesiant ac Iechyd Meddwl Addysg Uwch neu Gronfa Cymorth a Llesiant Dysgwyr Addysg Bellach Medr (lle bo hynny'n berthnasol). Lle bo rhan(nau) o gam gweithredu'n cael ei chyllido/eu cyllido drwy fuddsoddiad Medr, nodwch pa ran(nau), a swm y cyllid a ddefnyddir ar gyfer pob rhan.

Enghraifft – Cam gweithredu staff (addysg uwch ac addysg bellach)

1.	Teitl y cam gweithredu	Menter lleihau straen cysylltiedig â gwaith ymhlith tiwtoriaid		
	Math o gam gweithredu	☒ Gweithgaredd ☐ Gwasanaeth ☒ Hyfforddiant ☐ Adnodd	Perchennog y cam gweithredu	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
	Disgrifiad byr o'r cam gweithredu	<p>(Dim mwy na 200 o eiriau)</p> <p>Mewn ymateb i ganfyddiadau o Hunanwerthusiad Lles Staff a Dysgwyr 2026, lle y nodwyd bod straen cysylltiedig â gwaith ymhlith tiwtoriaid yn fater parhaus, rydym yn rhoi'r argymhellion canlynol ar waith:</p> <p><u>Hyfforddiant</u></p> <p>a) Rhoi hyfforddiant rheoli straen ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl i 100% o'r rheolwyr llinell erbyn mis Rhagfyr 2028.</p> <p><u>Gweithgaredd</u></p> <p>a) Sefydlu Gweithgor Llesiant Tiwtoriaid er mwyn cynnig fforwm ar gyfer trafodaeth, adborth a chreu datrysiadau ar y cyd.</p> <p>b) Cyflwyno arolygon pwls llesiant chwarterol o fis Gorffennaf 2026 ymlaen, gan rannu'r canlyniadau â'r Uwch-dîm Arwain o fewn pedair wythnos i bob arolwg a datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer meysydd unigol sy'n destun pryder.</p>		
	A yw'r cam gweithredu'n ymateb i'r hunanwerthusiad lles?	☒ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Amherthnasol	A yw'r cam gweithredu'n ymateb i'r mesurau i liniaru a rheoli risgiau lles a nodir yn y matrices risgiau lles neu'r log materion?	☒ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Amherthnasol
	A yw'r cam gweithredu'n cefnogi neu'n hybu llesiant neu ddiogelwch staff yn benodol?	☒ Llesiant emosiynol ☒ Iechyd meddwl ☐ Camymddwyn ☐ Aflonyddu ☐ Trais ☐ Trais rhywiol neu aflonyddu rhywiol ☐ Trosedd gasineb		
Dyddiad dechrau'r cam gweithredu	01/09/2026	Dyddiad gorffen y cam gweithredu	30/12/2028	

<p>A fydd y cam gweithredu (neu ei allbynnau) ar gael i staff mewn sefydliadau breiniol/partner?</p>	<p>☐ Bydd ☒ Na fydd ☐ Amherthnasol ☐ Yn rhannol – <i>rhowch fanylion isod:</i></p>	<p>A fydd y cam gweithredu (neu ei allbynnau) ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg?</p>	<p>☐ Bydd ☐ Na fydd ☐ Amherthnasol ☒ Yn rhannol – <i>rhowch fanylion isod:</i></p> <p>Caiff hyfforddiant rheoli straen ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ei gynnig yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p>
<p>Deilliant ac effaith ddisgwyliedig y cam gweithredu, a sut y caiff hyn ei fesur</p>	<p>Ymhlith y deilliannau disgwyliedig mae: Rhoi hyfforddiant rheoli straen ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl i 100% o'r rheolwyr llinell erbyn mis Rhagfyr 2028. Sefydlu Gweithgor Llesiant Tiwtoriaid erbyn mis Mawrth 2027 Cyflwyno arolygon pwls llesiant chwarterol o fis Gorffennaf 2026 ymlaen Ymhlith y mesurau llwyddiant mae:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Gostwng lefel y straen cysylltiedig â gwaith a gofnodir gan diwtoriaid o 58% i lai na 40% erbyn mis Mehefin 2028. ii. Gostwng lefel yr absenoldebau cysylltiedig â straen 15% dros gyfnod y cynllun gweithredu. iii. Cynyddu cyfranogiad mewn mentrau llesiant a gwasanaethau cymorth. 		
<p>A yw'r cam gweithredu'n cael ei gyllido drwy Gronfa Llesiant ac Iechyd Meddwl Addysg Uwch neu Gronfa Cymorth a Llesiant Dysgwyr Addysg Bellach Medr?</p>	<p>☐ Ydy, yn llawn ☒ Ydy, yn rhannol ☐ Nac ydy</p> <p><i>Os yw'n cael ei gyllido'n llawn neu'n rhannol, nodwch faint o gyllid a fydd yn cael ei ddefnyddio.</i></p> <p>Caiff £25,000 o fuddsoddiad Medr ei ddefnyddio i roi hyfforddiant rheoli straen ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl.</p>		

Enghraifft – Cam gweithredu staff (dysgu oedolion a'r gymuned a dysgu seiliedig ar waith)

1. Teitl y cam gweithredu	Hyfforddiant ar arferion sy'n ystyriol o drawma		
Math o gam gweithredu	☐ Gweithgaredd ☐ Gwasanaeth ☒ Hyfforddiant ☐ Adnodd	Perchennog y cam gweithredu	Rheolwr y Gwasanaeth
Disgrifiad byr o'r cam gweithredu	<p><i>(Dim mwy na 200 o eiriau)</i></p> <p>Mewn ymateb i ganfyddiadau o'r hunanwerthusiad a'r asesiad risg Lles Staff a Dysgwyr a gynhaliodd Darparwr X yn 2026, nodwyd y gall tiwtoriaid a delir fesul awr sy'n rhan o'r broses o dderbyn datgeliadau a rhoi cymorth i ddysgwyr ynghylch materion sy'n ymwneud â thrais rhywiol a chamymddwyn rhywiol brofi trawma, gofid emosiynol, salwch cysylltiedig â straen, gorflinder neu ddirywiad yn eu llesiant. Gall hyn arwain at absenoldebau oherwydd salwch ac effeithiau posibl ar gymorth i ddysgwyr a deilliannau diogelu.</p> <p><u>Hyfforddiant</u></p> <p>Rhoi hyfforddiant arbenigol ar arferion sy'n ystyriol o drawma i 100% o'r tiwtoriaid, gan gynnwys tiwtoriaid a delir fesul awr. Mae arferion sy'n ystyriol o drawma yn hanfodol er mwyn helpu staff i reoli eu llesiant eu hunain.</p>		
A yw'r cam gweithredu'n ymateb i'r hunanwerthusiad lles?	☒ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Amherthnasol	A yw'r cam gweithredu'n ymateb i'r mesurau i liniaru a rheoli risgiau lles a nodir yn y matrices risgiau lles neu'r log materion?	☒ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Amherthnasol
A yw'r cam gweithredu'n cefnogi neu'n hybu llesiant neu ddiogelwch staff yn benodol?	☒ Llesiant emosiynol ☒ Iechyd meddwl ☐ Camymddwyn ☐ Aflonyddu ☐ Trais ☒ Trais rhywiol neu aflonyddu rhywiol ☐ Trosedd gasineb		
Dyddiad dechrau'r cam gweithredu	01/09/2026	Dyddiad gorffen y cam gweithredu	01/02/2027
A fydd y cam gweithredu (neu ei allbynnau) ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg?	☒ Bydd ☐ Na fydd ☐ Amherthnasol ☐ Yn rhannol – <i>rhowch fanylion isod:</i>		

Deilliant ac effaith ddisgwyliedig y cam gweithredu, a sut y caiff hyn ei fesur	Bydd 100% o'r tiwtoriaid, gan gynnwys tiwtoriaid a delir fesul awr, yn cael hyfforddiant ar arferion sy'n ystyriol o drawma, er mwyn helpu'r staff i reoli eu llesiant eu hunain. Mae'r staff yn teimlo'n fwy hyderus i ymdrin â datgeliadau a rheoli eu llesiant eu hunain.
---	--

Enghraifft – Cam gweithredu dysgwyr (addysg uwch ac addysg bellach)

1.	Teitl y cam gweithredu	Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr		
	Math o gam gweithredu	☒ Gweithgaredd ☒ Gwasanaeth ☒ Hyfforddiant ☒ Adnodd	Perchennog y cam gweithredu	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr
	Disgrifiad byr o'r cam gweithredu	<p><i>(Dim mwy na 200 o eiriau)</i></p> <p>Mae'r Gwasanaeth Cymorth i Fyfyrrwyr yn cynnig cymorth llesiant, diogelu ac iechyd meddwl cydgysylltiedig i ddysgwyr. Mae'r gwasanaeth yn cyfuno cymorth gan staff arbenigol, gweithgareddau ataliol ar gyfer llesiant, adnoddau diogelwch digidol a rhaglenni hyfforddi dysgwyr er mwyn gwella llesiant, gwydnwch a mynediad at gymorth.</p> <p>Nod y gwasanaeth yw gwella llesiant dysgwyr, lleihau rhwystrau rhag cymryd rhan, gwella diogelwch personol, codi ymwybyddiaeth o bryderon iechyd meddwl, a chefnogi ymyriadau cynnar.</p> <p>Mae'r gwasanaeth yn cefnogi pob dysgwr addysg uwch, drwy gynnig darpariaeth wedi'i thargedu ar gyfer dysgwyr ymchwil ôl-raddedig, dysgwyr agored i niwed, dysgwyr sy'n wynebu caledi ariannol, a dysgwyr y mae angen cymorth llesiant arnynt.</p> <p>Mae ein gwasanaeth cymorth i fyfyrwyr yn cynnwys y canlynol:</p> <p><u>Gweithgareddau</u></p> <ul style="list-style-type: none"> a) Sesiynau gweithgarwch corfforol ar gyfer y campws cyfan b) Rhaglen llesiant myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig <p><u>Hyfforddiant i ddysgwyr</u></p> <ul style="list-style-type: none"> a) Hyfforddiant atal hunanladdiad b) Hyfforddiant ymyrryd mewn sefyllfaoedd niweidiol <p><u>Adnoddau</u></p> <ul style="list-style-type: none"> a) 3x swyddog llesiant cyfwerth ag amser llawn b) Talebau i gefnogi dysgwyr sy'n wynebu tlodi mislif a hylendid personol c) Tanysgrifiad i ap llesiant 		
	A yw'r cam gweithredu'n ymateb i'r hunanwerthusiad lles?	☒ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Amherthnasol	A yw'r cam gweithredu'n ymateb i'r mesurau i liniaru a rheoli risgiau lles a nodir yn y matrices risgiau lles neu'r log materion?	☒ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Amherthnasol

A yw'r cam gweithredu'n cefnogi neu'n hybu llesiant neu ddiogelwch dysgwyr yn benodol?	☒ Llesiant emosiynol ☒ Iechyd meddwl ☐ Camymddwyn ☐ Aflonyddu ☐ Trais ☐ Trais rhywiol neu aflonyddu rhywiol ☐ Trosedd gasineb		
Dyddiad dechrau'r cam gweithredu	01/09/2026	Dyddiad gorffen y cam gweithredu	30/12/2028
A fydd y cam gweithredu (neu ei allbynnau) ar gael i ddysgwyr mewn sefydliadau breiniol/partner?	☐ Bydd ☒ Na fydd ☐ Amherthnasol ☐ Yn rhannol – <i>rhowch fanylion isod:</i>	A fydd y cam gweithredu (neu ei allbynnau) ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg?	☐ Bydd ☐ Na fydd ☐ Amherthnasol ☐ Yn rhannol – <i>rhowch fanylion isod:</i>
A fydd y cam gweithredu (neu ei allbynnau) ar gael i ddysgwyr ôl-raddedig? (templod addysg uwch yn unig)	☒ Bydd ☐ Na fydd ☐ Amherthnasol ☐ Yn rhannol – <i>rhowch fanylion isod:</i>	A fydd y cam gweithredu (neu ei allbynnau) ar gael i ddysgwyr rhyngwladol? (templod addysg uwch yn unig)	☒ Bydd ☐ Na fydd ☐ Amherthnasol ☐ Yn rhannol – <i>rhowch fanylion isod:</i>
Deiliant ac effaith ddisgwyliedig y cam gweithredu, a sut y caiff hyn ei fesur	Mae'r gwasanaeth yn ceisio cefnogi llesiant dysgwyr, codi ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth, atgyfnerthu trefniadau atal hunanladdiad a gwella diogelwch dysgwyr. Caiff llwyddiant ei fesur drwy ddata ar ddefnydd o'r gwasanaeth, arolygon boddhad dysgwyr, presenoldeb mewn gweithgareddau llesiant, ystadegau ar ddefnydd o'r ap llesiant, cyfraddau cwblhau hyfforddiant a chanlyniadau arolygon llesiant blynyddol. Bydd y deilliannau'n cynnwys cynnydd mewn hyder i gael gafael ar gymorth, llai o ddysgwyr yn rhoi gwybod bod eu hanghenion llesiant heb eu diwallu, a gwell cyfraddau cadw ac ymgysylltu ymhlith dysgwyr.		
A yw'r cam gweithredu'n cael ei gyllido drwy Gronfa Llesiant ac Iechyd Meddwl Addysg Uwch neu Gronfa Cymorth a Llesiant Dysgwyr Addysg Bellach Medr?	☒ Ydy, yn llawn ☐ Ydy, yn rhannol ☐ Nac ydy Os yw'n cael ei gyllido'n llawn neu'n rhannol, nodwch faint o gyllid a fydd yn cael ei ddefnyddio. Caiff y Gwasanaeth Cymorth i Fyfyrrwyr ei gyllido'n llawn gan ddefnyddio arian o Gronfa Llesiant ac Iechyd Meddwl Addysg Uwch Medr yn 2026/27, ac mae'n debygol y bydd angen yr un lefel o gyllid arno yn 2027/28. Buddsoddiad o £180,000 yn 2026/27.		

Enghraifft – Cam gweithredu dysgwyr (dysgu oedolion a'r gymuned a dysgu seiliedig ar waith)

1.	Teitl y cam gweithredu	Hyfforddiant ymwybyddiaeth o iechyd meddwl i diwtoriaid er mwyn cefnogi dysgwyr		
	Math o gam gweithredu	☐ Gweithgaredd ☐ Gwasanaeth ☒ Hyfforddiant ☐ Adnodd	Perchennog y cam gweithredu	Rheolwr Cyflogaeth, Addysg a Sgiliau
	Disgrifiad byr o'r cam gweithredu	<p><i>(Dim mwy na 200 o eiriau)</i></p> <p>Roedd canfyddiadau o'r hunanwerthusiad a'r asesiad risg Lles Staff a Dysgwyr a gynhaliodd Darparwr X yn 2026 yn dangos bod nifer cynyddol o ddysgwyr wedi datgelu pryderon llesiant dros y ddwy flynedd flaenorol. Ymhellach at hynny, daeth y gwerthusiad o hyd i angen datblygu ymhlith y gweithlu, gan fod 30% o'r tiwtoriaid rhan-amser yn newydd i'r sefydliad a heb gael hyfforddiant ymwybyddiaeth o iechyd meddwl eto, a oedd yn lleihau eu gallu i adnabod pryderon llesiant dysgwyr ac ymateb yn briodol iddynt.</p> <p><u>Hyfforddiant</u></p> <p>Rhoi hyfforddiant ymwybyddiaeth o iechyd meddwl i 100% o'r tiwtoriaid, gan gynnwys tiwtoriaid a delir fesul awr.</p>		
	A yw'r cam gweithredu'n ymateb i'r hunanwerthusiad lles?	☒ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Amherthnasol	A yw'r cam gweithredu'n ymateb i'r mesurau i liniaru a rheoli risgiau lles a nodir yn y matrices risgiau lles neu'r log materion?	☒ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Amherthnasol
	A yw'r cam gweithredu'n cefnogi neu'n hybu llesiant neu ddiogelwch dysgwyr yn benodol?	☒ Llesiant emosiynol ☒ Iechyd meddwl ☐ Camymddwyn ☐ Aflonyddu ☐ Trais ☐ Trais rhywiol neu aflonyddu rhywiol ☐ Trosedd gasineb		
	Dyddiad dechrau'r cam gweithredu	01/09/2026	Dyddiad gorffen y cam gweithredu	31/08/2027
	A fydd y cam gweithredu (neu ei allbynnau) ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg?	☐ Bydd ☒ Na fydd ☐ Amherthnasol ☐ Yn rhannol – <i>rhowch fanylion isod:</i>		
Deilliant ac effaith ddisgwyliedig y cam gweithredu, a sut y caiff hyn ei fesur	100% o'r tiwtoriaid yn cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, a'r tiwtoriaid yn teimlo'n fwy hyderus i adnabod pryderon llesiant dysgwyr ac ymateb yn briodol iddynt.			

Atodiad A

Tabl 1

Categori	Pryd i'w Ddewis
Llesiant emosiynol	Ystyr llesiant emosiynol mewn addysg drydyddol yw gallu unigolion i reoli eu hemosiynau, ymdopi â phwysau addysgol a chymdeithasol, meithrin cydberthnasau cadarnhaol, a chynnal ymdeimlad o bwrpas a pherthyn. Mae'n cynnwys gwydnwch unigolion a systemau cymorth darparwyr sy'n hybu iechyd meddwl a chydbwysedd emosiynol.
Iechyd meddwl	Cyflwr o lesiant meddyliol sy'n galluogi pobl i ymdopi â'r pethau mewn bywyd sy'n achosi straen, gwireddu eu galluoedd, dysgu a gweithio'n dda, a chyfrannu at eu cymuned. Mae'n rhan annatod o iechyd a llesiant sy'n sail i'n galluoedd unigol a chyfunol i wneud penderfyniadau, meithrin cydberthnasau a siapio'r byd o'n cwmpas. Mae iechyd meddwl yn hawl ddynol sylfaenol, ac mae'n allweddol i ddatblygiad personol, cymunedol ac economaidd-gymdeithasol. Gall pobl ag iechyd meddwl gwael fod â chyflwr iechyd meddwl, ond ni fydd hyn bob amser nac o reidrwydd yn wir.
Camymddwyn (i'r graddau y mae'n ymwneud â lles dysgwyr)	Mae hyn yn cyfeirio at ymddygiad gan ddysgwyr neu staff nad yw'n gysylltiedig â materion academiaidd ac sy'n torri codau ymddygiad neu bolisiâu sefydliad, neu safonau cyfreithiol. Gall gynnwys aflonyddu (gan gynnwys aflonyddu rhywiol), trais (gan gynnwys trais rhywiol), gwahaniaethu, neu ymddygiad troseddol.
Aflonyddu	Mae i aflonyddu yr ystyr a roddir yn Adran 26 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac Adran 1 o Ddeddf Gwarchodaeth rhag Aflonyddu 1997. Ar gyfer aflonyddu rhywiol, gweler 'Trais rhywiol ac aflonyddu rhywiol' isod.
Trais	Mae trais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys gweithredoedd sy'n achosi niwed neu'n bygwth achosi niwed i berson arall ac sydd o fewn cwmpas Deddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861, Deddf Trefn Gyhoeddus 1986, a statudau eraill. Ar gyfer trais rhywiol, gweler 'Trais rhywiol ac aflonyddu rhywiol' isod.
Trais rhywiol ac aflonyddu rhywiol	Mae i aflonyddu yr ystyr a roddir yn Adran 26 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Adran 1 o Ddeddf Gwarchodaeth rhag Aflonyddu 1997 ac Adran 24 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae hefyd yn cynnwys trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol fel y'u dehonglir yn Adran 24 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae hyn yn cynnwys trais rhwng dysgwyr, staff, neu drydydd partion, a gall ddigwydd ar y campws; ar rith-gampysau; mewn llety y mae'r darparwr yn ei lesio, yn ei feddiannu neu'n berchen arno, neu yn ystod gweithgareddau ar y safle neu oddi arno dan oruchwyliaeth y darparwr.
Trosedd gasineb	Unrhyw drosedd y mae gan y dioddefwr neu unrhyw berson arall ganfyddiad iddi fod wedi'i hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn, ar sail anabledd neu anabledd canfyddedig; hil neu hil ganfyddedig; crefydd neu grefydd ganfyddedig; cyfeiriadedd

rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol canfyddedig; neu hunaniaeth drawsryweddol neu hunaniaeth drawsryweddol ganfyddedig person. Mae hyn yn adlewyrchu'r diffiniad a ddefnyddir ar hyn o bryd gan yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Gal ei bod yn bosibl y bydd y diffiniad hwn y cytunir arno yn cael ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd, dylai darparwyr gyfeirio at ganllawiau diweddaraf Gwasanaeth Erlyn y Goron neu'r heddlu wrth roi'r diffiniad hwn ar waith yn ymarferol.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government